Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyhoeddus cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd ar **nos Fawrth 8 Medi 2020 am 7.00 o'r gloch.** Cyfarfod o bell gan ddefnyddio technoleg fideo.

1-09/20: Presennol

Cadeirydd : Cyng. Robert Cadwalader

Cyng. Phil Jones; Cyng. Wayne Roberts; Cyng. Angela Hughes, Cyng. Nan Davies-Hughes; Cyng. Eirwyn Williams; Cyng. Ffion Gwyn; Cyng. Robert T Price;

Clerc – Dr Catrin Jones.

2-09/20 Ymddiheuriadau:

Cyng. Sian Williams;

3-09/20: Datgan diddordeb

4-09/20 Cadarnhau ac arwyddo cofnodion cyfarfod Awst 2020

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

5-09/20 Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law'r Cadeirydd/Clerc)

Materion er gwybodaeth yn unig – ni chaniateir penderfyniadau

6-09/20: Gohebiaeth

1. Cyngor Gwynedd – Covid-19 – ymateb re biniau i'r dref

   Nodwyd bod y Clerc wedi sgwennu i Gyngor Gwynedd re y biniau i'r dref - cafwyd cadarnhad o'i dderbyn a'i fod wedi gyrru ymlaen at Swyddog priodol Cyngor Gwynedd - aros am ymateb

   Penderfyniad
   Derbyn er gwybodaeth

2. Cais am gael Camera Cylch Cyfyng- Lôn Parc, Criccieth

   Roedd y Clerc wedi bod yn cyfathrebu gyda swyddog yr Heddlu ac yn ceisio cael dyddiad i gwrdd gyda'r trigolion

   Penderfyniad
   Derbyn er gwybodaeth

3 Un Llais Cymru –Ymarfer Dda – Ymgysylltu Cymunedol – 13 Awst 2020

Roedd copi o'r ddogfen wedi ei gylchredeg i aelodau. Nodwyd y canllawiau ymarfer dda ar gyfer ymgysylltu cymunedol.

Penderfyniad
Derbyn er gwybodaeth

4 Un Llais Cymru – Canllawiau i Gynghorau ar gynnal cyfarfodydd yn gorfforol - 1 Medi 2020

Roedd copi o'r canllawiau wedi eu cylchredeg i aelodau. Roedd yn annog cynghorau i ganolbwyntio ar fater diogelwch ac atal y feirws rhag lledaenu ac ni ddylent ond cychwyn cynnal cyfarfodydd yn gorfforol wedi iddynt fodloni eu hunain y gellir rheoli'r risgiau yn effeithiol.

Penderfyniad
Derbyn er gwybodaeth. Roedd pob cynghorydd yn medru ymuno yn y cyfarfodydd ar dechnoleg fideo, ac y dylid parhau gyda'r trefniadau yma yn hytrach na chwrdd yn gorfforol.

5 NALC – graddau cyflog o 1 Ebrill 2020 (Awst 26 2020) –

Roedd y wybodaeth wedi ei gylchredeg i aelodau am y graddau cyflog a oedd wedi eu cytuno gan y National Joint Council i'w gweithredu o 1 Ebrill 2020

Penderfyniad
Derbyn a mabwysiadu

7-09/20 Ceisiadau cynllunio

1. C20/0621/35/LL Dymchwel cyn weithdy llechi a chodi datblygiad cymysg yn cynnwys bwyty a bar ynghyd a gofod manwerthu bach a 4 ystafell wely 'aparthotel' gwasanaethol – Criccieth Craft Centre, Criccieth, LL52 0HS

   Penderfyniad:

   I ddanfon sylwadau. Y dylid cadw o fewn ystyriaeth yr adeiladau hanesyddol sydd o gwmpas gan nodi bod dau adeilad cyfagos wedi eu cofrestru yn adeiladau Gradd 2, sef Caffi Cwrt a'r Neuadd Goffa. Roedd dymuniad am fwy o fanylder ar y defnydd o'r datblygiad. Hefyd nod pwysigrwydd treftadaeth yr ardal ac y dylid cadw cofnod manwl a lluniau o'r Hen Efail sydd ar y safle ar gyfer y dyfodol a'i gosod ar safle We Casgliad y Werin.

2. C20/0699/35/CT Y Maes, Stryd Fawr Criccieth LL52 0EY

   Penderfyniad:

   I ddanfon sylwadau. Roedd cytundeb y dylid tocio'r coed ond y dylid cymryd gofal wrth wneud hynny er mwyn osgoi niweidio'r goleuadau Nadolig sydd ar y coed.

Roedd consyrn hefyd am wyneb y llawr o gwmpas y coed a'i fod yn anaddas ac yn beryglus o dan draed. Roedd y wyneb yn llithrig oherwydd sudd o'r goeden eucalyptus ac efallai y byddai arbenigwr coed yn medru lopio o'r top yn hytrach nac oddi tano er mwyn osgoi hyn. Roedd y llawr yn anwastad ac yn llithrig ac o ganlyniad roedd nifer o gwympiadau wedi bod yn y blynyddoedd diweddar. Dylai Cyngor Gwynedd ystyried o ddifrif cael wyneb newydd addas ar gyfer y safle - cyn gwneud hyn bydd angen datrys problemau gyda gwreiddiau'r coed.

8-09/20: Llenwi Sedd Wag y Cyngor Tref

Nodwyd nad oedd cais wedi dod am etholiad - felly roedd y rhybudd priodol wedi postio bod y Cyngor Tref yn bwriadu llenwi'r sedd drwy gyfethol drwy lythyr/e-bost i'r Clerc erbyn 30 Medi.

Nodwyd hefyd bod y Cyng. Dafydd Lloyd wedi ymddiswyddo. Yn ei lythyr roedd yn dweud ei fod wedi bod yn fraint gwasanaethu Criccieth ar y cyngor am bymtheg mlynedd ac roedd yn dymuno'n dda i'r cyngor yn y dyfodol. O ganlyniad bydd angen i'r Cyngor Tref cychwyn y broses o lenwi'r sedd wag maes o law.

Penderfyniad

Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth. Diolchwyd yn fawr iawn i'r Cyng. Dafydd Lloyd am ei wasanaeth a dymunwyd yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.

9-09/20: Drafft Adroddiad Blynyddol 2019/20

Roedd drafft adroddiad dwyieithog wedi ei gylchredeg Roedd y Cyngor wedi cytuno y dylid cael pris ar gyfer 100 o gopïau wedi'i argraffu gan y bydd copi ar safle We'r Cyngor Tref. - Derbyniwyd pris Gwasg Cymru ar gyfer argraffu.

Penderfyniad
Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith a chytunwyd i Wasg Cymru argraffu 100 copi o'r adroddiad mewn lliw i gynnwys lluniau.

10-09/20 Cynllun Cymunedol

1. **Gardd Natur**

Nodwyd bod gwaith ar yr Ardd Natur Lleoedd Lleol Natur, Cadw Cymru'n daclus wedi'i gwblhau - aelodau o Ffrindiau Gardd Natur wedi gweithio gyda Swyddog Cadw Cymru'n Daclus.

Penderfyniad
Diolchwyd yn fawr iawn i Cadw Cymru'n daclus ac i Ffrindiau Gardd Natur am y gwaith.

2. **Prosiect Cymunedol Cae Crwn**

Nodwyd bod gwaith ar y ffurflen gais yn mynd yn ei flaen yn dilyn adborth gan y Loteri i'r ffurflen brosiect ymholiad. Hefyd roedd yn dda nodi bod y cais cynllunio am y rhandiroedd wedi ei gymeradwyo a chopi o'r cadarnhad wedi ei gylchredeg er gwybodaeth. Yn ogystal roedd gohebiaeth Cyngor Gwynedd yn gosod termau ar gyfer les i'r Rhandiroedd a'r safle Gardd Gloynod Byw a'r Ardd Natur wedi ei gylchredeg ac roedd angen i'r Cyngor Tref ei gymeradwyo.

Penderfyniad
Derbyn yr adroddiad a chymeradwywyd y termau'r les i'r safle. Cytunwyd hefyd i hysbysebu gwybodaeth am y rhandiroedd cymunedol ar y cyfryngau cymdeithasol ac y dylai gwirfoddolwyr gofrestru eu diddordeb gyda'r Cyng. Phil Jones.

3. Map ar gyfer y dref

Nodwyd bod y map wedi cael ei argraffu a'i gylchredeg i fusnesau yn y dref. Bydd lansiad ohono i gyd-fynd gydag ail-agor y Castell ar ddydd Mercher 9fed Medi a darllediad amdano ar raglen S4C Heno'r noson honno.

Roedd y Clerc wedi sgwennu at Swyddog Cyngor Gwynedd i ofyn am ganiatâd gosod mapiau A1 wedi'u lamineiddio ar fyrddau yn y gwahanol leoliadau cytunwyd arnynt o amgylch y dref ac yn aros am ymateb.

Penderfyniad

Diolchwyd eto i'r gweithgor am eu gwaith i gynhyrchu'r map a fydd o fudd mawr i'r dref.

3. **Bwrdd Gwybodaeth ar gyfer Murlun Siopau Stryd Fawr**

Cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf y dylid gosod bwrdd gwybodaeth am y Murlun i esbonio ei gyd-destun ac i gael pris am wneud y gwaith.

Derbyniwyd pris Gwasg Cymru ar gyfer argraffu'r bwrdd alwminiwm gwybodaeth maint A2 wedi ei lamineiddio.

Nodwyd hefyd bod erthygl y Clerc yn "The Clerk Magazine" cenedlaethol am brosiect Strydoedd Unigryw wedi ei gyhoeddi mis hwn.

Penderfyniad:

Derbyn yr adroddiad a chytunwyd i Wasg Cymru argraffu'r bwrdd gwybodaeth.

4. **Arwyddion i'r dref**

Roedd y Clerc wedi sgwennu at Gyngor Gwynedd i dynnu sylw am yr angen am arwyddion peryg ar greigiau o dan y tir ger y Blue China. Roedd ymateb wedi do na fyddai na fyddai modd ystyried nes ar ôl y cyfnod gwyliau.

Penderfyniad:

Derbyn yr adroddiad a gadael y mater gyda Chyngor Gwynedd.

5. **Adeilad yr Hen Lyfrgell**

Roedd gohebiaeth wedi ei dderbyn gan y cyfreithiwr am y camau nesaf ar gyfer ceisio datrys sefyllfa perchnogaeth Adeilad yr Hen Lyfrgell ac yn cynnig bod cysylltiad yn cael ei wneud gyda Chyngor Cymuned Llanidan cyn symud ymlaen i gael barn bargyfreithiwr ar y mater.

Penderfyniad:
Bod y cyfreithiwr yn cysylltu gyda Chyngor Cymuned Llanidan ar ran y Cyngor Tref.

11-09/20: Safle We Newydd i'r Cyngor Tref

Nodwyd y bydd gwaith ar y Safle We newydd yn cychwyn ym mis Medi - yn y cyfamser roedd Delwedd wedi paratoi tudalen We dros dro. Roedd angen i'r Cyngor Tref gytuno ar ddatganiad hygyrchedd ar gyfer y safle ac roedd drafft wedi ei gylchredeg. -

Penderfyniad:

Derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r datganiad hygyrchedd i'w gyhoeddi ar y safle We.

12-09/20: Llwybrau Cyhoeddus gan gynnwys Llwybr 11

Nodwyd bod y Clerc wedi ysgrifennu eto at Swyddog Cyngor Gwynedd yn dilyn y cyfarfod diwethaf i gynnig cyfarfod maes – nid oedd ymateb wedi dod erbyn y cyfarfod.

Penderfyniad:
Ysgrifennu i'r swyddog i ddiolch am y gwaith gwych i osod dwy giât newydd ar y llwybr rhwng Muriau a Dryll a'i wahodd eto i gyfarfod maes ynglŷn â Llwybr 11.

13-09/20: Groynes ac Amddiffynfeydd Môr Criccieth

Roedd mwy o niwed wedi digwydd yn dilyn y gwyntoedd diweddar.

Penderfyniad:

Cytunwyd y dylid ysgrifennu at y Swyddog i holi am amserlen ac i dynnu sylw at y ffaith bod mwy o niwed wedi digwydd yn yr ardal.

14-09/20: Trafnidiaeth yng Nghriccieth

Roedd llythyr wedi ei dderbyn gan un o drigolion y dref yn mynegi consyrn am sbîd y traffic yn y dref a ddylai wella os bydd gostwng y cyflymder i 20 milltir yr awr. Roedd yn nodi problem ger Gwesty Abereistedd ac yn gofyn am ystyriaeth i ymestyn llinellau dwbl melyn. Arweiniodd hyn at drafodaeth am nifer o ardaloedd o gonsyrn yn y dref gan gynnwyd y darn ffordd o bont y rheilffordd i lawr i'r maes parcio yn Abereistedd.

Penderfyniad:
I sgwennu at Swyddog Cyngor Gwynedd yn ei wahodd i gyfarfod maes i drafod materion o gonsyrn gyda'r Cyng. Wayne Roberts, Cyng. Phil Jones a'r Cyng. Nan Davies-Hughes.

15-09/20: Torri gwair a gwrychoedd yn y dref

Nodwyd yn y cyfarfod diwethaf bod Cyngor Gwynedd wedi torri gwrych llwybr 1. Roedd consyrn am uchder y gwrychoedd a oedd yn arwain o'r Clwb Bowlio i fyny at yr Ysgol a bod angen tocio'r clawdd am resymau diogelwch yn enwedig o gofio bod lle chwarae i blant yn yr ardal. Roedd y Clerc wedi ysgrifennu i Gyngor Gwynedd i holi iddynt dorri uchder y clawdd. Nid oedd wedi derbyn ymateb eto.

Penderfyniad:

Derbyn yr adroddiad.

16-09/20: Parcio yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd.

17-09/20: Torri Coed yng Nghriccieth

Codwyd pryder ynghylch yr anhawster i geir ar groesffordd yr Esplanade gyda Heol Porthmadog oherwydd tyfiant coed.

Penderfyniad:

Ysgrifennu at y Swyddog yng Nghyngor Gwynedd i dynnu sylw at y mater.

18-09/20 Meinciau Tref Criccieth

Dim byd i'w adrodd

19-09/20 Derbyniadau

Cyngor Gwynedd – ail hanner y praesept £21,000

20-09/20: Taliadau

- Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol (PAYE) £9.80 (siec 101419)
- Cyflog Clerc (Awst) £779.95 (siec 101420)
- Wales Print £556.20 (siec 101421)

Penderfyniad:

Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc i dalu'r biliau

21-09/20: Materion caeedig (i aelodau'n unig)

Daeth y cyfarfod i ben am 20.45 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar <u>Nos Fawrth 13 Hydref 2020</u>.

Bydd y rhaglen yn cau 5 **Hydref <u>2020</u>**

Dr Catrin Jones
Clerc